# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Sefydlu ac amcan cyffredinol etc. Corff Llais y Dinesydd*

### 14 Ymwybyddiaeth y cyhoedd a datganiad polisi

(1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcan cyffredinol ac o'i swyddogaethau.

(2) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd lunio a chyhoeddi datganiad o'i bolisi sy'n nodi sut y mae'n bwriadu—

(a) hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau, a

(b) ceisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol.

(3) Rhaid i'r datganiad polisi bennu'n benodol sut y mae Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu sicrhau—

(a) bod y Corff yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru,

(b) bod y Corff yn hygyrch i bobl ledled Cymru, ac

(c) bod aelodau o staff y Corff ac unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Corff yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ledled Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 14 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(k)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 14.